


# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gymraeg Ifor Hael

## Dyddiad yr arolygiad: **Hydref 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar ddatblygu lles a medrau iaith Cymraeg y disgyblion. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda phawb yng nghymuned yr ysgol. Mae arweinwyr eraill yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol ac mae'r ymdeimlad o gydweithio fel tîm yn gryf.

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Yn ddiweddar, mae hyn wedi arwain at y defnydd o ddulliau effeithiol i godi safonau darllen bron bob disgybl ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi gan lywodraethwyr sy'n cyfrannu'n briodol i weledigaeth a gwaith yr ysgol. Er hyn, nid yw'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'u rôl yn ddigon effeithiol fel rhan o brosesau hunanwerthuso'r ysgol. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r datblygiadau diweddaraf.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy'n cynnig ystod o brofiadau pwrpasol i ddisgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae llais y disgybl yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer cynllunio gweithgareddau, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i'w dysgu. Mae awyrgylch gadarnhaol yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu gweithgar. At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio ystod addas o dechnegau addysgu effeithiol. Er hyn, mewn lleiafrif o wersi, mae tueddiad i athrawon or-arwain y dysgu. Mae hyn yn cyfyngu gallu disgyblion i wneud dewisiadau am y modd maent yn cyflwyno eu gwaith a'r adnoddau maent eisiau eu defnyddio.

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn adnabod y disgyblion hyn yn gyflym ac yn darparu cymorth pwrpasol iddynt er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol sy'n gyfeillgar, gofalgar a chefnogol. Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn ymdrin ag eraill gyda pharch a chwrteisi. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Un cryfder amlwg yw'r modd mae staff yn hybu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ym mywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae medrau Cymraeg bron bob disgybl a'u hymwybyddiaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, yn datblygu'n gadarn.

# Argymhellion

**A1** **Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu yn gynyddol annibynnol**

**A2** **Sicrhau bod aelodau'r corff llywodraethol yn cymryd rhan lawn mewn prosesau hunanwerthuso i adnabod yr holl gryfderau a'r meysydd i'w gwella**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Ifor Hael |
| Awdurdod lleol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 194 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 150 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 24 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 21.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 10.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 9.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/10/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.